Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

26 Tachwedd 2010

Bwrdd Iechyd yn Cymeradwyo Datblygiadau Mawr yn Ysbyty Llandudno

Mae Cynlluniau cyffrous ar gyfer datblygu Ysbyty Llandudno wedi cymryd cam mawr arall ymlaen ac yn barod i'w cyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol.

Cymeradwywyd y cynlluniau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yr wythnos hon ac yn awr cyflwynir hwy i Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn sicrhau'r arian cyfalaf angenrheidiol.

Bydd datblygiadau yng ngwasanaethau'r ysbyty yn digwydd dros gyfnod o 5 mlynedd ac maent yn cynnwys:

- Darparu Uned Mân Anafiadau newydd, bwrpasol, gan gynnwys darparu gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau.
- Datblygu Uned Gofal Dydd Meddygol
- Y potensial i ddarparu cyfleuster Endosgopi estynedig
- Datblygu cyfleuster achos dydd llawfeddygol, yn cael ei gefnogi gan hyd at ddwy theatr ychwanegol
- Adran cleifion allanol fwy a modern, yn cael ei chefnogi gan fwy o gyfleusterau pelydr-x ac uwchsain. Bydd hyn hefyd yn cynnwys clinig poen yn y frest y gellir cael mynediad sydyn iddo, cyfleusterau ar gyfer clinigau amlddisgyblaethol, clinig iechyd rhywiol integredig; ac o bosibl, Uned Awdioleg fwy
- Y potensial i ddarparu sganiwr MRI
- Y potensial i ddatblygu Uned Anaf Caffaeledig i'r Ymennydd/ Adsefydlu Niwrolegol i gleifion mewnol
- Mwy o le ar gyfer y gwasanaeth Rhewmatoleg sydd yn ganolog o ran darparu gwasanaethau i bedair sir yng Ngogledd Cymru
- Canolfan Addysg i'w defnyddio gan staff, cleifion a grwpiau ehangach yn y gymuned
- Canolfan i ferched yn cynnwys: Gwasanaethau diagnostig a symptomatig y fron; gwasanaeth terfynu beichiogrwydd meddygol; clinig ffrwythlonder a chlinig hysterosgopi un alwad
- Canolfan ar gyfer y gwasanaeth bydwreigiaeth cymuned
- Canolfan ar gyfer timau iechyd meddwl yn y gymuned a chyfleusterau cleifion allanol a therapiwtig ar gyfer iechyd meddwl oedolion

Ar gyfer datblygiadau dynodedig, cynhyrchir achos busnes unigol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru cyn dechrau gweithio ar y safle. Fodd bynnag, cytunodd y Bwrdd y dylid dechrau'r gwaith i ddatblygu lle ar gyfer gwasanaethau Rhewmatoleg ar unwaith, yn dilyn y cytundeb i benodi Rhewmatolegydd Ymgynghorol a gwaith paratoadol i hwyluso datblygiadau eraill a gynlluniwyd.

Mae barn cleifion, staff, y Cyngor Iechyd Cymuned, Grŵp Gweithredu'r Ysbyty, Cyfeillion yr Ysbyty, sefydliadau gwirfoddol a swyddogion ac aelodau etholedig o Gyngor Sir Conwy a Chyngor Tref Llandudno wedi eu cynnwys wrth ddatblygu'r cynlluniau sydd â'r bwriad o ddatblygu'r ysbyty i'w lawn botensial. Bydd pawb yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau manwl.

Dywedodd Mary Burrows, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: "Mae hwn yn gyfnod cyffrous iawn i'r ysbyty ac mae yna lawer o waith wedi mynd i mewn i greu'r cynlluniau efo'n gilydd. Mae yna ystod eang o bobl leol wedi cymryd rhan i sicrhau bod gan yr ysbyty rôl fawr i'w chwarae wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Rydym yn ffodus i gael cefnogaeth lawn y Gweinidog Iechyd ac mae dyfodol disglair iawn i Landudno fel ysbyty lleol sy'n diwallu anghenion y dref ac fel canolfan rhagoriaeth."

Dywedodd Chris Jones, Prif Swyddog Cynorthwyol Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr: "Rydym yn falch iawn fod y cynlluniau ar gyfer Ysbyty Llandudno wedi eu cymeradwyo. Rydym yn edrych ymlaen at wireddu'r datblygiadau hyn er lles cleifion ar draws Gogledd Cymru."

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Trystan Pritchard ar (01248) 384 938

26 November 2010

Health Board Approves Plan for Major Developments at Llandudno Hospital

Exciting Plans for the future development of Llandudno Hospital have taken another big step forward and will now be submitted for official approval.

The plans were approved by the Betsi Cadwaladr University Health Board this week and will now be submitted to the Welsh Assembly Government to secure the capital funds required.

The development of services at the hospital will be phased over a 5 year period and include:

- The provision of a new, purpose built Minor Injuries Unit, including provision of GP Out of Hours Services
- The development of a Medical Day Care Unit
- The potential to provide an expanded Endoscopy facility
- The development of a surgical day case facility, supported by up to two additional theatres
- An expanded and modernised Outpatient Department, supported by increased X-ray and Ultrasound facilities. This will also include a rapid access chest pain clinic, facilities for multi-disciplinary clinics, an integrated sexual health clinic; and, potentially an expanded Audiology Unit
- The potential to provide an MRI scanner
- The potential to develop an inpatient Acquired Brain Injury /
- Neuro-rehabilitation Unit
- An enlarged area for the Rheumatology service which acts as the 'hub' for services provided to four counties in North Wales
- An Education Centre, for use by staff, patients and wider community groups
- A women's centre to include: diagnostic and symptomatic breast services; a medical termination of pregnancy service; a fertility clinic and a one-stop hysteroscopy clinic
- A base for the community midwifery service
- A base for community mental health teams and outpatient and therapeutic facilities for adult mental health

For identified developments, an individual business case will be produced and submitted to Welsh Assembly Government prior to work commencing on site. However, the Board agreed that work should commence immediately to develop accommodation in support of Rheumatology services following agreement of the appointment of a Consultant in Rheumatology and enabling works to facilitate the other planned developments.

The views of patients, staff, the Community Health Council, the Hospital Action Group, the Hospital League of Friends, voluntary organisations and officers and elected members of Conwy County Council and Llandudno Town Council have been engaged at all stages of developing the plans which aim to

develop the hospital to its full potential. All will continue to be involved as the detailed plans are developed and implemented.

Mary Burrows, Chief Executive of the Betsi Cadwaladr University Health Board said: "This is a tremendously exciting time for the hospital and the plans we have drawn together are the result of a huge amount of work which has involved a wide range of local people who all want to ensure that the hospital plays a major role in providing healthcare services. We are fortunate to have the full support of the Health Minister and the future for Llandudno is very bright both as a local hospital that serves the needs of the town and as a centre of excellence."

Chris Jones, Assistant Chief Officer for the Betsi Cadwaladr Community Health Council said: “We are delighted that the plans for Llandudno Hospital have been approved. We look forward to these developments going ahead as great benefit to patients across North Wales.”

ENDS

For more information, contact Trystan Pritchard on (01248) 384 938